

Thema: Teithio

Blynyddoedd 3 a 4

Cymraeg

Rydym yn astudio'r enwog Twm Sïon Cati'r tymor yma. Bydd y disgyblion yn darllen eu straeon anturus ac yn gwneud gwaith penodol o'r llyfrau. Byddwn yn canolbwyntio ar godi safonau llafar trwy wneud gwaith ar sgriptiau, actio a recordio.

Saesneg

Llyfr 'King Henry VIII shoes' fydd y gwraidd ein dysgu'r tymor yma. Mae'r llyfr yn un diddorol iawn ac yn cyd-fynd yn dda gyda'r gwaith Tuduriaid y tymor hwn.

Mathemateg

Mi fyddwn yn ymestyn ein dealltwriaeth o waith ffracsiynau, siâp, data, rhif, arian, amser a phroblemau bob dydd y tymor yma. Mi fydd ein pwyslais ar ddatrys problemau.

Byddwn yn edrych ar siâp yn ystod yr hanner tymor cyntaf a thrin data yn yr ail hanner tymor. Byddwn yn ymchwilio priodweddau siapiau 2D a 3D, byddwn yn edrych ar onglau yn siapiau a dosbarthu siapiau. Yn ystod yr ail hanner tymor byddwn yn astudio pictogramau, siartiau bar, diagramau Carol, casglu, trefnu a dadansoddi data.

Gwyddoniaeth

Byddwn yn edrych ar wahanol rymoedd y tymor hwn. Byddwn yn astudio magnetau, tynnu, gwthio, y ddaear a thu hwnt.

Daearyddiaeth

Yr ardal leol yw ein taith y tymor hwn. Byddwn yn edrych ar sut mae pobl yn teithio i'r ysgol a thrafnidiaeth o gwmpas yr ysgol. Byddwn yn edrych ar sut allwn wella ein hól troed carbon.

Hanes

Y Tuduriaid yw ein thema'r tymor yma. Bydd y disgyblion yn dysgu am ffordd o fyw'r adeg yma, dillad, bwyd, adeiladau, swyddi ac yr adnabyddus Hari'r VIII.

Addysg Gorfforol

Dros y tymor bydd y disgyblion yn cael y cyfle i wella eu sgiliau dawns, pêl rwyd a phêl droed. Mi fyddant yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau awyr agored a chyfeiriannu. Mi fydd yr ysgol i gyd yn dal i fynychu'r pwll nofio unwaith yr wythnos.

Cerddoriaeth

Tymor yr eisteddfod, mi fydd y disgyblion yn cael cyfle i ddysgu gwahanol ganeuon wrth gystadlu gyda'r eisteddfod yr Urdd. Mi fyddant yn dysgu eitemau ar gyfer cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi. Mi fyddant yn cael gwahanol gyfleoedd i berfformio yn unigol ac fel rhan o grŵp.

Addysg Grefyddol

Byddwn yn edrych ar lyfrau sanctaidd y tymor yma. Byddwn yn meddwl am pam mae'r Beibl yn bwysig i Gristnogion. Byddwn yn ymweld â'r eglwys. Byddwn yn edrych ar sgroliau Torah. Byddwn yn dysgu am Y Pasg hefyd.